# DATGANIAD AM FIL BRYS
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| TEITL | **Datganiad i gefnogi trin Bil Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru (Aelodaeth) fel Bil Brys** |
| DYDDIAD | **6 Ionawr 2026** |
| GAN | **Julie James AS, y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni** |

Gwneir y datganiad hwn ochr yn ochr â chyflwyno cynnig y dylai Bil Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru (Aelodaeth) gael ei drin fel Bil Brys, yn unol â Rheol Sefydlog 26.95A.

Fel y nodais mewn datganiad ysgrifenedig ddoe, mae mater technegol wedi'i nodi mewn perthynas â'r diffiniad o "ymarferydd meddygol cofrestredig" yn Neddf Iechyd Meddwl 1983. Mae hyn yn golygu bod rhaid i aelodau meddygol o Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru feddu ar gofrestriad gyda'r Cyngor Meddygol Cyffredinol a thrwydded i ymarfer.

Yng ngoleuni hyn, mae Llywydd Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru wedi penderfynu y bydd aelodau heb drwydded gyfredol i ymarfer yn cael eu hatal rhag eistedd ar achosion. Mae hyn yn rhoi'r tribiwnlys mewn cryn berygl o fethu â bodloni ei amserlenni statudol ar gyfer gwrandawiadau.

Mae Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru wedi rhoi gwybod mai dim ond 19 aelod meddygol o'r tribiwnlys sydd bellach ar gael i eistedd ar achosion. Er bod Llywydd Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru wedi gofyn i'r aelodau hynny fod ar gael cymaint â phosibl, cyngor clir y farnwriaeth yw nad oes digon o aelodau meddygol ar gael i eistedd ar nifer yr achosion sydd wedi'u rhestru ar gyfer yr wythnosau nesaf.

Mae aelodau heb drwyddedau cyfredol, sy'n aml wedi ymddeol o ymarfer, wedi bod yn eistedd ar nifer anghymesur o uchel o achosion y tribiwnlys. Mae pob aelod meddygol o'r tribiwnlys wedi'i gofrestru gyda'r Cyngor Meddygol Cyffredinol.

Barn Gweinidogion Cymru, fel mater o bolisi, yw na ddylai trwydded gyfredol i ymarfer fod yn ofyniad i eistedd fel aelod meddygol o'r tribiwnlys.

Felly, mae'r Bil hwn yn diwygio'r ddeddfwriaeth berthnasol i newid y gofynion cymhwystra ar gyfer aelodau meddygol o'r tribiwnlys. Mae'n caniatáu i unrhyw berson sydd wedi'i gofrestru'n llawn gyda'r Cyngor Meddygol Cyffredinol wasanaethu fel aelod meddygol, ni waeth a oes ganddo drwydded gyfredol i ymarfer. Bydd hyn yn sicrhau bod gofynion cymhwystra'r tribiwnlys yn cyd-fynd â'r rhai yn Lloegr.

Bydd y ddeddfwriaeth hefyd yn darparu bod personau a benodwyd yn flaenorol fel aelodau meddygol, ond nad oedd ganddynt drwydded i ymarfer (boed ar adeg eu penodi neu ar unrhyw adeg arall), wedi'u penodi'n ddilys ac yn aelodau dilys o'r tribiwnlys ar hyd yr adeg.

Mae hwn yn gymaint o fater brys â'r newid i'r gofynion cymhwystra, oherwydd heb ddarpariaeth o'r fath, ni fydd aelodau meddygol presennol (heb drwydded i ymarfer) yn gallu eistedd ar y tribiwnlys heb fynd trwy broses ailbenodi sy'n cymryd llawer o amser, sy'n golygu na fydd y tribiwnlys yn gallu cyflawni ei swyddogaethau statudol mewn modd amserol.

Byddai hyn yn negyddu diben brys y Bil, sef adfer gallu gweithredol y tribiwnlys cyn gynted â phosibl.

Os caiff ei phasio, bydd y ddarpariaeth hon hefyd yn rhoi sicrwydd uniongyrchol i ddefnyddwyr y tribiwnlys ynghylch dilysrwydd penderfyniadau yn y gorffennol.

O ystyried yr effaith weithredol sylweddol ar y tribiwnlys, rhaid inni fynd ar drywydd y datrysiad cyflymaf posibl i'r mater hwn o ran cymhwystra. Canlyniad methu â thrin y Bil hwn fel Bil brys fyddai oedi o fisoedd lawer hyd nes y gellid pasio deddfwriaeth amgen.

Nid oes llwybr anneddfwriaethol hyfyw i sicrhau digon o aelodau meddygol sy'n bodloni'r gofynion cymhwystra i eistedd ar bob achos. Nid oes unrhyw gost yn gysylltiedig â'r newid a gynigir gan y Bil ond byddai cost sylweddol yn gysylltiedig â pheidio â chymryd unrhyw gamau. Ni ellir amcangyfrif yn ddibynadwy'r gost ariannol o beidio â gweithredu. Ni allai'r tribiwnlys ymdopi ag oedi o fisoedd a byddai hawliau aelodau'r grŵp hwn sydd ymhlith y mwyaf agored i niwed yn cael eu cyfaddawdu'n annerbyniol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried a ellid defnyddio deddfwriaeth y DU i fynd i'r afael â'r sefyllfa bresennol. Mewn egwyddor, gellid cymryd camau drwy ddeddfwriaeth sylfaenol y DU pe bai Bil addas ar gael, neu drwy is-ddeddfwriaeth y DU. Fodd bynnag, byddai'r naill lwybr neu'r llall yn cymryd misoedd lawer.

Bil gan y Senedd a wneir drwy weithdrefnau brys yw'r unig ffordd sydd ar gael i ddatrys y mater hwn mewn modd amserol ac i amddiffyn hawliau rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas.